Gwisg Ysgol

Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol swyddogol, sef crys-chwys gwyrdd tywyll a chrys-polo coch gyda logo'r ysgol wedi ei frodio arnynt, ynghyd â throwsus neu sgert lwyd/ddu.

Mae'r Corff Llywodraethu wedi penderfynu, wedi proses o ymgynghori â'r rhieni, yr hoffai weld y disgyblion yn gwisgo'r wisg ar bob achlysur. Teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi.

Ceir gwybodaeth ynglyn â phrisiau y siwmperi a'r crysau-polo gan y pennaeth.